# CONWAY ROAD

## GWERTHUSIAD O ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2007

# cynnwys


## 1. CYFLWYNIAD.....>
.....1.1 Y Cefndir
.....1.2 Gwerthusiadau
.....1.3 Y Ffiniau
.....1.4 Cyd-destun Polisi

## 2. ARWYDDOCÂD HANESYDDOL YR ARDAL

## 3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL.....>
.....3.1 Ansawdd nodedig y lle
.....3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a nodweddion tirwedd
.....3.3 Manylion pensaernïol o ansawdd uchel
.....3.4 Deunyddiau Lleol o ansawdd uchel neu anarferol yn y Treflun
.....3.5 Mannau cyhoeddus neu breifat wedi'u diffinio'n dda
.....3.6 Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel

## 4. FFRAMWAITH GWEITHREDU.....>
.....4.1 Y Cefndir
.....4.2 Gwella'r Ardal Gadwraeth

## 5. ARGYMHELLION.....>

## 6. YMGYNGHORIAD.....>

### ATODIAD 1.....>
Canllawiau i'r rhai sy'n cynllunio datblygiad yn yr ardal

### ATODIAD 2.....>
Cyngor am goed a thirlunio

# MAP




**Ardal Gadwraeth Arfaethedig Conway Road**

- Ffin Arfaethedig Conway Road
- Ffin Arfaethedig Heol y Gadeirlan
- Adeiladau Cofrestredig Statudol
- Adeiladau Ceofrestredig Lleol

Mehefin 2007

# 1 cyflwyniad

## 1.1 Y Cefndir

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ar ôl asesu cymeriad yr ardal dan sylw sy'n dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn aml, yn ymestyn tu hwnt i'r adeiladau eu hunain. Gall cynllun y ffyrdd, y strydlun a'r lleoedd gwyrdd i gyd gyfrannu at ansawdd ardal. Mae dynodi ardal yn ardal gadwraeth yn diogelu ei chymeriad ac i gyflawni hyn, mae gan y Cyngor reolaeth ychwanegol dros ddymchwel adeiladau, datblygiadau bach a diogelu coed.

## 1.2 Gwerthusiadau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth ac i gydweithio gyda phobl leol i ddatblygu polisïau a chynlluniau a fydd yn diogelu eu cymeriad. Er mwyn rheoli'r broses, paratowyd Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Strategaeth yn nodi blaenoriaethau at gyfer Dinas Caerdydd a'r meini prawf i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd cadwraeth newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli. Yn 2007 nododd gwerthusiad o Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan y potensial am Ardal Gadwraeth newydd yn ardal Conway Road. Mae'r prif reswm dros y dynodiad yn deillio o hanes nodedig ac anarferol yr ardal sydd yn parhau i fod yn amlwg yng nghynllun y strydoedd a'r tai ac yn amrywiaeth yr arddulliau adeiladu sy'n dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyflwynir casgliadau gwerthusiad o'r ardal yma ynghyd ag argymhellion ar gyfer ei dynodi a chynigion i wella'r ardal. Yn sail i hyn, mae gwaith CRAG [Grŵp Gweithredu Trigolion Canna] a chyngor gan y Gymdeithas Fictorianaidd a Grŵp Ymgynghorol Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan.

## 1.3 Y Ffiniau

Nodwyd nifer o faterion allweddol i gynorthwyo gwerthusiad o'r ardal, sef:

- Ansawdd nodedig y lle.
- Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd.
- Manylion pensaernïol o ansawdd uchel.
- Mannau cyhoeddus neu breifat wedi'u diffinio'n dda.
- Deunyddiau o ansawdd uchel neu anarferol yn y Treflun.
- Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel

Mae'r gwerthusiad yn cyfeirio at yr ardal a ddangosir yn y cynllun (?). Dewiswyd yr ardal gan ei bod yn ardal a gafodd ei datblygu'n bennaf yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan grŵp o'r enw Cymdeithas Tir Rhydd-ddaliadol Cenedlaethol. Er y ceir olion o gynllun cynnar y tir Rhydd-ddaliadol tu hwnt i'r ardal hon, mae'r clwstwr mwyaf nodedig ac arwyddocaol sy'n arddangos meini prawf mabwysiedig ar gyfer Ardal Gadwraeth i'w gweld yn yr ardal dan sylw. Tu hwnt i'r ardal hon i'r gogledd ac i'r de, ni welir cymaint o amrywiaeth yn arddull yr adeiladu a dychwelir at derasau mwy haearnaidd stadau prydlesol Caerdydd ac yn arbennig Ystâd Bute.

Isod, ceir hanes yr ardal a gwerthusiad o'r ardal a nodwyd.

## 1.4 Y Cyd-destun Polisi

Mae polisïau eraill yn y Cynllun Lleol mabwysiedig yn ategu'r gwerthusiad. Mae tair rhan i'r gwerthusiad:

- Asesiad o gymeriad o'r darpar Ardal Gadwraeth.
- Fframwaith ar gyfer diogelu a gwella'r Ardal Gadwraeth.
- Canllawiau i gyflawni hyn.

# 2 arwyddocâd hanesyddol yr ardal

Teulu'r Mathews oedd yn berchen ar y caeau sy'n cynnwys Maenorau Llandaf a Threganna a nhw oedd yn eu rheoli am tua 400 mlynedd tan i Syr Samuel Romilly eu prynu yn 1818. Ar y pryd, ef oedd y Cyfreithiwr Cyffredinol ac roedd yn ddiwygiwr blaenllaw ym myd y gyfraith. Yn 1852, cynigiwyd gwerthu'r Ystâd fel tir adeiladu ar brydles. Prynwyd y ddwy lain yn Nhreganna gan Gymdeithas Tir Rhydd-ddaliadol Caerdydd. Cynigiodd y Gymdeithas hyblygrwydd wrth werthu plotiau a'u cynnig fesul 10 troedfedd. Yr unig gyfyngiadau wrth eu gwerthu oedd bod rhaid cadw'r llinell adeiladu a bod lleiafswm gwerth o £150 ar bob tŷ.

Roedd Cymdeithas Tir Rhydd-ddaliadol Caerdydd yn un o nifer o rai eraill tebyg iddi ym Mhrydain, i gyd yn cynrychioli ymgyrch bwysig i ryddfreinio pobl gyffredin. Yn syml, roedd pobl a brynai blot o dir rhydd-ddaliadol trwy'r gymdeithas gan adeiladu tŷ oedd werth o leiaf £150, yn ennill yr hawl i bleidleisio. Roedd Syr Samuel Romilly yn un o'r rheiny a fethodd â chyflawni diwygiadau yn ystod blynyddoedd cynnar yr 19eg ganrif, ond ymladdodd ei feibion dros yr un daliadau. Pan werthwyd eu tir ym Mhontcanna ganddynt i'r Gymdeithas Tir Rhydd-ddaliadol Genedlaethol yn 1853, roeddent yn cydymdeimlo ag amcanion y gymdeithas ac yn anrhydeddu bwriad eu tad. Er i nifer o gymdeithasau lwyddo i gyflawni eu nod o adeiladu tai ac ennill hawliau pleidleisio i'w perchnogion, ychydig o ardaleodd sydd wedi goroesi'n gyflawn heddiw. Mae hanes Cymdeithas Rydd-ddaliadol Caerdydd yn bwysig er mwyn cadw llawer o'r adeiladau gwreiddiol, gyda'u cymeriad unigol yn dyst i'r hanes anarferol hwn yn ogystal ag ymgorffori un o egwyddorion sylfaenol democratiaeth.

Un o amcanion y Gymdeithas oedd canfod ardaloedd tir rhydd-ddaliadol lle gellid gwerthu plotiau mwy eu maint ar gyfer adeiladu tai mwy sylweddol. Cyfeirir at y rhain mewn dogfennau archif fel 'filas gwledig ar gyfer masnachwyr' a 'safleoedd da ar gyfer adeiladau'. Datblygwyd yr ardaloedd o gwmpas Conway Road a Severn Road yn y modd hwn. Gellir gweld y dull a ddefnyddiwyd i werthu'r plotiau yng nghymeriad tai'r ardal o hyd. Mae hyn yn cyferbynnu â'r argraff fwy unffurf a geir o'r datblygiadau ar dir Bute sy'n gyffiniol a dyma sydd yn cyfrannu at gymeriad hanesyddol a phensaernïol arbennig yr ardal hon.

Roedd nifer o bobl ifanc deinamig yn aelodau o Gymdeithas Tir Rhydd-ddaliadol Caerdydd ac yn eu plith roedd:

- William Parry James a oedd yn adeiladwr o sylwedd ac mewn partneriaeth â'r pensaer Edwin Seward adeiladodd yr Hen Lyfrgell, Ysbyty Dewi Sant ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Adeiladodd y Lindens [rhan o Gartref Nyrsio y Santes Winefride erbyn hyn] ar y plotiau a brynodd gan y Gymdeithas,

- John Grant a oedd yn un o'r masnachwyr coed llewyrchus a adeiladodd yr ardal. Ef oedd preswylydd cyntaf Carlton Villa, sydd erbyn hyn yn fwy adnabyddus fel cyn ficerdy Eglwys y Santes Catherine.

- William Sanders, un arall o'r masnachwyr coed. Yn ddiweddarach, daeth yn ysgrifennydd Cymdeithas Adeiladu'r Principality. Fe adeiladodd Tŷ Doncaster ar Conway Road a phrif gymwynaswr yr Eglwys Fethodistaidd.

## Rhan o fap Caerdydd Thomas Waring 1869




## Map 1881

# 3 asesiad o gymeriad yr ardal

## 3.1 Ansawdd nodedig y lle

Rhan annatod o'r ardal a'r amgylchedd arbennig a grëwyd gan y Gymdeithas Rhydd-ddaliadol yw'r hanes sy'n unigryw yng Nghymru. Mae ei hansawdd nodedig yn deillio o'r amrywiaeth o ddulliau adeiladu a'r defnydd o gynllun y plotiau yn cynnwys y canlynol:

- Dŵr glân a charthffosiaeth fodern,
- Tai a adeiladwyd gan lynu at linell adeiladu fanwl,
- Unffurfiaeth a chyfrannedd yn lled pob tŷ,
- Rhodfa â choed ar eu hyd gyda gerddi yn y ffrynt a'r cefn,
- Dau blot cornel mawr a gynlluniwyd i fframio mynediad i'r ardal o'r de,
- Amrywiaeth o arddulliau pensaernïol a deunyddiau,
- Amrywiaeth yn uchder yr adeiladau

## 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd

Mae'r disgrifiad byr hwn o'r ardal a'i hadeiladau tirnod yn ategu ac yn ychwanegu at yr wybodaeth a ddarparwyd gan Grŵp Gweithredu Trigolion Canna:

- Adeiladwyd Eglwys Fethodistaidd Conway Road o dywodfaen a charreg nadd olau gyda naddiad o fricsen lwyd, coch a melyn ar bob agoriad. Mae'r brif fynedfa yn y pen de-ddwyreiniol ac mae crib i'r talcen hwn ac yn ei ganol mae ffenestr fwa driphlyg risiog. Mae grisiau allanol hir yn arwain at y brif fynedfa sy'n creu cnewyllyn hanesyddol a phwysig i'r ardal.

- Mae Carlton Villa gyferbyn â'r Eglwys. Adeiladwyd ef yng nghanol y 1850au ar blot a neilltuwyd ar gyfer adeilad sylweddol gan y Gymdeithas Tir Rhydd-ddaliadol. Erbyn hyn, mae'r tŷ mawreddog clasurol ei arddull hwn, gyda'r wyneb stwco ar ei ffrynt, yn fflatiau ac yn parhau fel adeilad tirnod yn fframio'r mynediad i'r ardal

- Lleolir y Lindens [Cartref Nyrsio y Santes Winefride erbyn hyn] tu ôl i wal derfyn uchel a gardd wedi gordyfu. Fe'i gwelir ar fap Ordnans 1878 ac er gwaethaf yr ychwanegiadau iddo a'r estyniad sy'n ei gysylltu â'r cartref nyrsio mae'n dal i fod yn enghraifft wych o fila wedi'i adeiladu o frics gyda bricsen las ar bob agoriad ffenestr a feranda addurnol ar y ffrynt.

- Cartref Nyrsio y Santes Winefride. Lleolir yr adeilad diymhongar hwn o'r 1930au o fewn tir wedi'i dirlunio a'i gadw a'i gynnal yn dda. Mae'n dal i gadw'r wal garreg derfyn uchel ar Romilly Crescent, wedi'i diffinio gan gilbost o frics a band o frics o'i fewn. Yn 1 Conway Road, ceir dau fila sylweddol, clasurol er eu bod wedi cael eu hymestyn, sy'n rhan o'r grŵp o adeiladau.

Ceir clwstwr sylweddol arall o adeiladau tirnod ar gyffordd Romilly Road a Heol Llandaf. Maen nhw'n cynnwys:

- Suffolk House. Fe'i adeiladwyd gan Benjamin Wright yn anrheg priodas i'w ferch. Mae'n fila gwyn tri llawr mawreddog gyda phortsh clasurol a ffenestri crom addurnol a balconïau uwch ei ben.

- Lleolir 97 Romilly Crescent ar groeslin â'r gyffordd.

- Neuadd Gospel Treganna. Lleolir hon gyferbyn Suffolk House ac fe'i hagorwyd yn 1859 gan Fethodistiaid Treganna hyd nes i Eglwys Conway Road gael ei hadeiladu. Mae wedi cael ei defnyddio gan nifer o grwpiau anghydffurfiol ers hynny. Mae ei ffasâd yn blaen gyda ffenestri Fenisaidd bwaog uchel a ffenestr linter uwchben y fynedfa a mowldiau bwaog.

- Roedd 30 Romilly Crescent ar gornel Llandaff Road unwaith yn Ysgol i'r Mud a'r Byddar (1866-1906). Ceir cafn ddŵr cerrig yn ei wal ffiniol.

Mae'r trydydd grŵp o adeiladau tirnod sylweddol wedi'u lleoli ar gyffordd Romilly Crescent a Severn Road. Yma, mae pum ffordd yn cwrdd wrth glwstwr o siopau cynnar; maen nhw i gyd wedi'u newid yn sylweddol erbyn hyn.

Ceir nifer o dafarndai nodedig rhwng ardaloedd o dai sefydledig:

- Tafarn y Conway a adeiladwyd yn yr 1850au. Mae'n adeilad cornel â wyneb stwco iddo gyda thalcendo ac mewn lle amlwg yn y strydlun.

- Tafarn y Romilly a adeiladwyd yn 1898 fel coetsiws

- Y Robin Hood a adeiladwyd yn 1901. Mae estyniad diweddarach ag iddo wyneb teils seramig gwydrol wedi'u gosod mewn pilaster addurnol a cherrig copa.

Y nodweddion tirnod mwyaf nodedig yw'r strydoedd ag arnynt hen goed ar eu hyd. Mae gan Severn Grove a Conway Road erddi â pherthi o'u hamgylch. Mae hyn i gyd yn cyfrannu at gymeriad deiliog yr ardal sy'n cyferbynnu â'r prinder o dirlunio yn y strydoedd cyfagos.

Mae'r grŵp mwyaf nodedig o goed tirnod wedi'u lleoli ar gyffordd Conway Road a Romilly Road lle mae Gorchmynion Cadw Coed yn bodoli ac yn gweithredu o fewn cyn ficerdy y Santes Catherine.

## 3.3 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Ceir amrywiaeth eang o arddulliau adeiladu yn y darpar Ardal Gadwraeth ac mae i bob arddull fanylion pensaernïol nodedig sef:

- Bythynnod yn dyddio o'r adeg pan oedd yr ardal yn dir âr ar ystâd Romilly [e.e. 42, 44 Severn Grove]. Cafodd y rhain eu hadeiladu mewn carreg neu rendrad,

- Tai yn dyddio o'r 1850au. Mae'r rhain wedi'u hadeiladu yn y dull clasurol ac yn aml â wyneb stwco neu rendro e.e. Suffolk House, Doncaster House a 71, 73 a 75 Conway Road

- Ceir terasau stwco symlach ar Severn Grove a Romilly Crescent hefyd, yr hyn sy'n eu nodweddu'n aml yw bargodion, cornisiau a bracedau addurnol;

- Terasau a thai diweddarach wedi'u hadeiladu yn y dull gothig a cherrig nadd. Mae'r rhain i'w gweld drwy'r ardal.

Mae'r amrywiaeth o arddulliau a deunyddiau adeiladu hanesyddol wedi cynnig cefnlen gyfoethog ar gyfer datblygiadau mewnlenwad newydd a thros yr ugain mlynedd diwethaf gwelwyd nifer o ddatblygiadau cyfoes yn ymddangos yn y strydlun. Bu'r rhain yn llwyddiannus pan ddilynwyd y llinell adeiladu a graen yr adeiladau rhydd-ddaliadol cynnar, yn llai llwyddiannus pan fu lleihau ym maint ac ansawdd y gerddi.

### Nodweddion Adeiladau Nodedig:

- Drysau a ffenestri yw'r nodweddion pwysicaf mewn adeilad, yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad ardal. Yn aml ceir canopïau uwchben drysau wedi'u gosod mewn bracedau sgrôl. Mae'r rhai diweddarach wedi'u gosod o fewn portshys bwaog gothig.

- Mae ffenestri codi neu gopïau diweddarach ohonyn nhw'n gyffredin. Ceir rhai enghreifftiau cynnar a nodedig sy'n cynnwys cwareli culion ar yr ymylon a gwydr lliw.

- Er bod y mwyafrif o doeau'r tai wedi cadw'r llechi gwreiddiol neu lechi artiffisial mae nifer wedi cael eu hamnewid am deils concrit. Mae gan rai adeiladau ffenestri to ar eu ffrynt sy'n niweidio eu cymeriad.

- Mae simneiau yn nodweddion nodedig yn yr ardal. Fel arfer, maen nhw o frics coch neu gymysgedd o frics coch a lliw hufen gyda photiau corn ar eu pen.

- Mae waliau blaen cwrt a rheiliau yn gyffredin drwy'r ardal.

Dangosodd arolwg o ansawdd adeiladau a gynhaliwyd yn 2006, er bod mwy na 50% o'r ardal yn cadw'i nodweddion gwreiddiol, bod nodweddion pwysig megis drysau a ffenestri wedi'u colli a dim ond tua 25% o'r nodweddion gwreiddiol sydd ar ôl. Y newid sy'n effeithio fwyaf yw amnewid ffenestri a drysau am rai gwydr dwbl uPVC neu fecanweithiau agor ar golyn o bren. Mae gan rai o'r tai ddrysau neu bortshys ychwanegol. Er gwaethaf hyn, mae arddull y 'rhydd-ddeiliaid' cyntaf yn parhau. Mewn gwirionedd, mae nifer o'r newidiadau modern yn ychwanegu cymeriad i'r ardal, er enghraifft, yr estyniad i rif 14 a 16 Heol Conway a'r gwaith paentio lliwgar ar Dŷ Pembroke.

## 3.4 Deunyddiau o Ansawdd Uchel neu Anarferol yn y Treflun

- Carreg Pennant yw'r prif ddeunydd adeiladu gyda naill ai bricsen goch neu garreg Caerfaddon yn cael eu defnyddio ar gyfer yr addurn a'r manylion o gwmpas ffenestri, drysau a pharapetau.

- Defnyddir bricsen yn bennaf ar gyfer addurn, i ddiffinio agoriad ffenestri a gwaith cerrig.

- Ceir hefyd dystiolaeth o stwco gyda nifer o dai yn ei arddangos mewn dull clasurol neu Eidalaidd . Mae hyn ar ei fwyaf cyffredin yn

Romilly Crescent lle mae parapetau, copin a chonglfeini rhai o'r tai cynharaf wedi'u moldio.

- Mae tystiolaeth bod deunyddiau lleol megis Carreg Radur wedi cael ei ddefnyddio hefyd.

- Ceir nifer o waliau cerrig nodedig gyda gwaith haearn addurniadol. Yn Romilly Crescent y gwelir y rhai gorau. Defnyddiwyd rwbel neu glogfaen afon i'w hadeiladu gyda manylion o fricsen a charreg Radur ar eu copa.

## 3.5 Mannau Cyhoeddus neu Breifat wedi'u diffinio'n dda

- Prin yw'r ardaloedd sylweddol o le agored o fewn yr Ardal Gadwraeth er bod Caeau Llandaf i'r gogledd o Heol y Gadeirlan yn darparu ffin gadarn a lleoliad i amgáu'r ardal drefol.

- Mae golwg o gaeau agored yn y pellter o Conway Road yn nodwedd ddeniadol o'r ardal.

- Diffinnir lle cyhoeddus a phreifat yn glir gydag eiddo wedi'u lleoli ar linell adeiladu gyson wedi'u gwahanu o'r ffordd gan waliau terfyn isel o frics coch neu garreg ynghyd â phlannu aeddfed tu ôl.

- Ceir nifer sylweddol o erddi mawr gyda choed a llwyni aeddfed o'u mewn. Mae eu heffaith yn ymestyn tu hwnt i'r gerddi, maen nhw hefyd yn fframio adeiladu a mynedfeydd.

## 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

### Tirlunio meddal:

- Mae coed aeddfed a pherthi yn rhan bwysig o'r strydlun. Ceir nifer ar hyd Severn Grove a Conway Road. Mae coed mewn gerddi yn creu cefnlen drwchus i linellau adeiladu. Mae'r rhai o gwmpas Eglwys y Santes Catherine a'r Santes Winefride a'r Ficerdy wedi'u diogelu gan orchmynion cadw coed. Maen nhw i gyd yn cyfrannu at greu cefnlen ddeiliog i gynllun nodedig y plotiau ac i'r llinell adeiladu.

- Mae grŵp pwysig arall o goed wedi'u lleoli yng ngardd 97 Romilly Crescent. Yma, mae'r coed yn goferu dros rheiliau a wal rwbel drawiadol ar hap.

- Yn Santes Winefride ceir yr ardal dirlunio fwyaf sylweddol; mae wedi cadw nifer o goed sbesimen oedd yn boblogaidd ar yr adeg pan gafodd yr ardal ei datblygu gyntaf.

### Tirlunio Caled:

- Mae nifer o'r ardaloedd o bafin gwreiddiol wedi cael eu disodli gan darmac neu slabiau pafin ac nid oes cysondeb yn yr ardal.

# 4 fframwaith gweithredu

## 4.1 Y Cefndir

**Mae rhannau blaenorol y ddogfen hon yn disgrifio nodweddion o gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth. O'u mabwysiadu gellir eu defnyddio fel a ganlyn:**

- I ddiffinio cynllun gwella a fydd yn sail i ddatblygiad yn yr ardal
- I sefydlu fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio,
- I sefydlu blaenoriaethau ar gyfer rheoli'r parth cyhoeddus yn y dyfodol,
- I ddarparu canllawiau ar gyfer y rhai sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth.

**Dyma'r cyfleoedd a geir yn y gwerthusiad:**

- Cynnal cymeriad arbennig ardal Conway Road,
- Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi eu hintegreiddio'n dda o fewn yr ardal
- Os oes lle i wella'r parth cyhoeddus rhaid cyfeirio at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth a'r gwelliannau a nodwyd yn y gwerthusiad,
- Gwella mwynhad o'i gymeriad arbennig,
- Cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gymeriad arbennig yr ardal a phwysigrwydd Cymdeithas Tir Rhydd-ddaliadol Caerdydd.
- Annog y rhai sy'n byw neu'n gweithio i ddiogelu cymeriad arbennig eu heiddo. Annog y rhai sy'n byw yno i ddiogelu cymeriad arbennig eu heiddo.
- Diogelu'r coed yn yr ardal a chanfod blaenoriaethau ar gyfer diogelu pellach drwy wasanaethu Gorchmynion Cadw Coed.

**Mae'r pwysau am newid yn codi o'r canlynol:**

- Pwysau parhaus i newid ac ymestyn adeiladau a gerddi,
- Pwysau parhaus am barcio ar y stryd, a'r tarfu ar y traffig sy'n digwydd o ganlyniad,
- Newid i adeiladau a thai i gwrdd ag amcanion eraill, er enghraifft gwell effeithiolrwydd ynni, a diogelwch ar gyfer tai,
- Tagfeydd traffig parhaus ar draws yr ardal.

Bwriad yr adran olaf hon yw mynd i'r afael â'r canlyniadau hyn mewn cynigion i wella'r Ardal Gadwraeth a'r nodweddion cadarnhaol a ddisgrifiwyd yn yr adrannau blaenorol.

# 4.2 Dulliau o Wella'r Ardal Gadwraeth

## Cyfarwyddyd

Y dull mwyaf effeithiol o wella'r Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rhai sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiad yn deall ei chymeriad. Mae'r cyfarwyddyd a geir yn yr atodiad 2 a 3 yn rhoi cyngor ar sut y gellir diogelu adeiladau mewn cynigion ar gyfer datblygu. Mae hefyd yn darparu cyngor i'r rhai sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

## Gwella

Yn ôl Deddf Cynllunio 1990 (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 mae dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun gwella Ardal Gadwraeth. Dim ond wrth gydweithredu ag Ardaloedd Gwasanaethu eraill y Cyngor ac wrth gydweithredu â datblygwyr, y gymuned neu gyrff cyhoeddus eraill y gellir sicrhau'r gwelliannau hyn.

**Isod, nodir y cyfleoedd y gallai'r Cyngor ddylanwadu arnyn nhw er mwyn sicrhau gwelliant.**

1. Trwy fabwysiadu'r cyfleoedd cyfarwyddyd a gwelliannau a nodwyd yn y gwerthusiad hwn.

2. Rheoli cyllidebau presennol y Cyngor yn er enghraifft wrth wneud y canlynol:

- Atgyweirio tai,
- Cymorth grant i wella Effeithiolrwydd Ynni mewn cartrefi
- Gwella priffyrdd a'u hatgyweirio a gwella llwybrau cerdded
- Parciau – eu cynnal a'u cadw a'u gwella

3. Drwy sicrhau'r diogelwch ychwanegol y mae dynodi ardal yn ardal gadwraeth yn ei gynnig.

# 5 argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi casgliadau'r Gwerthusiad a'r camu y gellir eu cymryd o'u mabwysiadu.**

- Cadarnhau blaenoriaethau gweithredu ac argymhellion y gwerthusiad yn sail ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth.
- Mae'r Gwerthusiad yn cynnig fframwaith i asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf
- Sefydlu gwell cyfathrebu gyda grwpiau lleol mewn partneriaeth â Grŵp Ymgynghorol Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan.
- Sicrhau bod y Gwerthusiad a gwybodaeth am hanes yr ardal ar gael i'w hastudio yn y llyfrgell ac yn yr ysgolion lleol.
- Cytuno ar gynllun cynnal a chadw addas gyda'r adran Parciau a Phriffyrdd er mwyn sicrhau bod gwaith yn y parth cyhoeddus yn sensitif i gymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Hysbysebu dynodi'r ardal yn Ardal Gadwraeth yn unol â'r Ddeddf.

# 6 ymgynghoriad

Cafodd y ddogfen hon ei mabwysiadu yn dilyn ymgynghoriad lleol. Os hoffech chi rannu gwybodaeth am hanes yr ardal, cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth ar 20873485, neu 20873431.

Ceir manylion am Adeiladau Rhestredig, y Rhestr Leol a Chofrestr Cadw o Barciau a Gerddi Hanesyddol ynghyd â dogfennau cynllunio polisi gan y Tîm Cadwraeth.

## *Am wybodaeth a chysylltiadau*

***Y Tîm Cadwraeth***
***Cynllunio Strategol, Ystafell CY4***
***Neuadd y Sir Caerdydd CF10 4 UW 02920 87***
***3485 3431***

## *Diolch i*

- ***Grŵp Gweithredu Trigolion Canna,***
- ***Grŵp Ymgynghorol Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan,***
- ***Y Gymdeithas Fictoraidd,***
- ***Swyddfa Cofnodion Morgannwg,***
- ***Cadw.***

# Cyfarwyddyd ar gyfer y rhai sy'n cynllunio datblygiad neu newidiadau yn yr Ardal Gadwraeth.

## 1. Fframwaith Polisi

**1.1** Cefnogir fframwaith polisi'r canllaw hwn gan Ddeddf Cynllunio 1990 (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), Polisi Cynllunio Cymru 2002, Cylchlythyr 61/96, Cynllun Strwythur Ailosodiad De Morgannwg 1991 – 2011 (Ardal Caerdydd) a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 1996 a Datganiad Ysgrifenedig wedi Adneuo o'r Cynllun Datblygu Unedol Hydref 2003, y mae gan bob un ohonyn nhw bolisïau yn cyfeirio at gadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth. Bydd y cyfarwyddyd a geir yn yr atodiad hwn hefyd yn ategu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, y Canllawiau Cynllunio Atodol i Berchnogion Tai a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

**1.2** Mae nifer fawr o adeiladau hanesyddol yn yr ardal gadwraeth, ond nid yw'r mwyafrif wedi eu rhestru'n statudol. Mae'r eiddo hyn wedi cadw nodweddion pensaernïol sy'n helpu i gadw cymeriad yr ardal ac maen nhw'n elfennau hanfodol yn y diddordeb arbennig sydd ynddi. Efallai bod mân newidiadau ac ychwanegiadau'n ymddangos yn ddibwys ynddyn eu hunain ond o'u hystyried ar y cyd fe allan nhw gael effaith niweidiol ar y diddordeb arbennig sydd o fewn yr ardal gadwraeth.

**1.3** Mae'r diddordeb arbennig yn yr ardal gadwraeth yn ganlyniad i'r nodweddion allweddol a ddisgrifiwyd ym Mhennod 3. Er y gall rhai newidiadau i adeiladau fod yn 'ddatblygiad a ganiateir' dylai unrhyw ddatblygiad geisio cadw'r nodweddion allweddol hyn. Mae'r canllaw yn nodi'r arfer da ar gyfer datblygu mewn ardal gadwraeth.

## 2. Waliau Allanol

**2.1** Ni chaniateir gorchuddio wal hanesyddol wreiddiol, naill ai drwy rendro, cladin o unrhyw fath, paentio neu unrhyw driniaeth niweidiol.

**2.2** Mae dresin ac amgylchyn Carreg Caerfaddon llawer o'r eiddo wedi cael ei baentio. Pan fydd rhain yn cael eu hail-baentio, dylai hyn fod mewn lliw sy'n gweddu cystal â phosibl â charreg Caerfaddon.

**2.3** Caniateir tynnu paent oddi ar waliau, y dresin a'r amgylchyn ar yr amod bod y dull priodol o'i dynnu'n cael ei ddefnyddio. Gall defnyddio dulliau anaddas o lanhau, megis cemegau, gormodedd o ddŵr neu chwipio tywod wneud difrod tymor hir i wneuthuriad adeiladau.

## 3. Ailbwyntio

**3.1** Wrth ailbwyntio mae'n bwysig bod yr asiad yn cael ei baratoi'n briodol, bod y morter o'r un lliw ac ansawdd â'r gwreiddiol a bod proffil a gorffeniad y gwaith gwreiddiol wedi ei weddu cystal â phosibl. Mae ailbwyntio gor-frwdfrydig yn gallu achosi difrod i wneuthuriad yr adeilad.

## 4. Toeau a Thalcenni Tai

**4.1** Dylid cadw ac atgyweirio manylion addurniadol gwreiddiol sydd ar dalcenni tai a thoeau, megis teils crib, ffinials ac estyll tywydd addurniadol. Fel arfer, ni fydd yn dderbyniol i neb eu diddymu. Os collwyd y manylion hyn, anogir eu hailgyflwyno gan y bydd hyn yn gwella cymeriad arbennig yr ardal gadwraeth.

**4.2** Os yn bosibl dylid cadw'r deunyddiau toi gwreiddiol. Os bwriedir eu hamnewid, dylid gweld i ba raddau y gellir ailddefnyddio'r deunyddiau toi gwreiddiol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Llechi newydd naturiol neu rai wedi ei hadennill yw'r dull gorau o gadw nodweddion arbennig yr adeilad a'r ardal gadwraeth. Fodd bynnag, mae llechi replica o ansawdd da weithiau'n ddewis derbyniol amgen fel gorchudd i adeilad na restrwyd mewn ardal gadwraeth.

## 5. Simneiau

**5.1** Rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer chwalu simnai. Mae'n bwysig sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu gwaith carreg a brics, y morter ac unrhyw fanylion megis potiau cyrn clai, hyd yn oed os nad yw'r simneiau'n cael eu defnyddio bellach. Fel arfer, ni cheir cefnogaeth i fwriad i dynnu simnai i lawr os yw'n gwneud cyfraniad i'r ardal gadwraeth.

## 6. Offer dŵr glaw

**6.1** Ble bynnag bo'n bosibl, dylid cadw cafnau a pheipiau dŵr glaw o haearn bwrw. Dylai rhai wedi eu hailosod fod yn y steil sy'n gweddu â nodweddion arbennig yr ardal gadwraeth.

## 7. Ffenestri To, Ffenestri Dormer ac Estyniadau To

**7.1** Gall fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer ffenestri to a dormer. Mae gosod ffenestri to a dormer newydd ar wynebau amlwg adeilad yn anghydweddol ac yn tanseilio cymeriad yr ardal gadwraeth.

**7.2** Mae ffenestri to a dormer yn dderbyniol ar waliau cefn adeiladau gan eu bod yn tueddu i fod mewn mannau o'r golwg. Fodd bynnag, os yw drychiad cefn adeilad yn amlwg o'r ffordd fawr (ac eithrio o'r lonydd cefn) mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd iddyn nhw.

**7.3** Ni chaiff cynigion sy'n newid maint ac uchder estyniadau yn y cefn drwy ychwanegu lloriau ychwanegol eu caniatáu.

**7.4** Mae rhai adeiladau lle mae dormerau'n gwneud cyfraniad pwysig i ardal gadwraeth. Os bwriedir amnewid neu ailosod y ffenestri dormer hyn bydd disgwyl iddyn nhw gael ei newid am rai tebyg. Mae'n annhebygol y bydd cynyddu maint dormer yn dderbyniol. Nid yw newid ffenestr dormer yn falconi neu falconi bach iawn yn un o nodweddion yr ardal gadwraeth.

## 8. Ffenestri a Drysau

**8.1** Dylid cadw ac atgyweirio ffenestri codi sash a drysau, sydd o goed gwreiddiol, os yw hynny'n bosibl. Nid yn unig mae atgyweirio coed yn fwy cynaliadwy'n amgylcheddol, mae'n aml yn rhatach na newid ffenestr gyfan ac, yn ychwanegol, mae'n cadw cymeriad gwreiddiol yr adeilad. Mae gan y Tîm Cadwraeth restr o seiri coed arbenigol a all atgyweirio neu amnewid ffenestri a drysau coed.

**8.2** Pan fod gwir angen ffenestri newydd, rhaid i'r rhai sydd yn cael eu gosod yn eu lle weddu'n ofalus ag ymddangosiad, deunyddiau a phwrpasau'r ffenestri gwreiddiol.

**8.3** Ni chaniateir cyfnewid ffenestri codi sash sydd o goed gwreiddiol am ffenestri upvc ond pan ystyrir eu bod nhw'n cadw cymeriad yr ardal gadwraeth. Dylid nodi bod upvc yn aml yn ymddangos yn llai cydweddol am bod rhaid iddyn nhw fod yn fwy trwchus. Canlyniad hyn yw nad oes iddyn nhw'r ysgafnder sy'n nodweddiadol o ffenestri sash o goed.

**8.4** Os oes ffenestri a drysau modern, sydd heb fod yn wreiddiol, ac os yw cyfleoedd datblygiad yn caniatáu hynny, anogir eu cyfnewid am rai sy'n adlewyrchu ymddangosiad, deunyddiau a phwrpas y rhai gwreiddiol oedd yn yr adeilad, a hynny er mwyn gwella cymeriad yr ardal gadwraeth.

**8.5** Ceir rhagor o gynghorion ar atgyweirio neu amnewid ffenestri mewn taflen ar wahân "Atgyweirio ac Amnewid Ffenestri mewn ardaloedd cadwraeth / Window Repair & Replacement in Conservation Areas', sydd ar gael drwy gysylltu â'r Tîm Cadwraeth neu ar wefan y Cyngor.

**8.6** Ni ddylid newid maint agoriad ffenestr neu ddrws gan y bydd hyn yn debygol o wneud niwed i olwg yr adeilad a'r grŵp y mae'n rhan ohono. Mae agoriad newydd ar wyneb amlwg adeilad yn annhebygol o fod yn derbyniol. Os oes newidiadau amhriodol wedi eu gwneud a lle bo cyfleoedd datblygu yn caniatáu hynny, anogir ailgyflwyno patrymau ffenestri nodweddiadol.

**8.7** Dylid cadw gwydr addurniadol mewn ffenestri, drysau a chynteddau portsh. Bydd unrhyw fwriad i dynnu neu newid gwydr addurniadol yn annhebygol o fod yn dderbyniol. Os yw gwydr addurniadol wedi ei niweidio, dylid ailosod y rhannau toredig yn gydymdeimladol yn hytrach na thynnu'r ffenestr yn gyfan gwbl.

**8.8** Gellir cyflawni gwell effeithlonrwydd, gostwng sŵn a lleihau drafftiau drwy dulliau rhadlon, er enghraifft drwy gynnal a chadw rheolaidd ac atgyweirio ffenestri'n briodol neu trwy osod gwydr eilaidd ar ochr fewnol y ffenestri, gosod stribedi drafftiau a hyd yn oed llenni trwchus.

## 9. Cyntedd/Portsh

**9.1** Dylid cadw manylion addurniadol ar bortshys ac o'u hamgylch. Os yw'r manylion wedi eu colli dylid ystyried eu hadfer.

## 10. Dyfeisiadau Adnewyddu Ynni, Offer Cyfathrebu ac Offer Diogelwch

**10.1** Gall gosod offer ychwanegol, i ba bynnag bwrpas, gael dylanwad sylweddol ar gymeriad ardal gadwraeth. Os gosodir hwy mewn mannau anaddas, gall yr effaith cronnus amharu ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Yn aml waliau cefn neu adeiladau allanol yw'r lleoliadau mwyaf priodol, os ydynt mewn mannau llai amlwg ac heb fod yn amharu ar gymeriad na golwg yr ardal gadwraeth. Os yw offer o'r fath wedi ei osod mewn man amhriodol yna dylid ei symud pan fydd cyfle'n codi er mwyn diddymu'r annibendod gweledol.

## 11. Gerddi Ffrynt

**11.1** Lle collwyd cynllun a manylion gwreiddiol gardd dylid annog eu hadfer.

**11.2** Os yw gerddi ffrynt eisoes wedi eu newid i gynnwys parcio cerbydau ac os yw cyfleoedd datblygu yn caniatáu hynny, anogir gwelliannau drwy adfer gerddi ffrynt traddodiadol.

## 12. Ffiniau Terfyn yn y Ffrynt

**12.1** Os yw'r ffiniau ffrynt gwreiddiol yn bodoli dylid eu cadw mewn unrhyw gynigion datblygu. Os yw'r manylion hyn wedi eu colli a bod cyfleoedd datblygu'n caniatáu hynny, anogir gwelliannau drwy eu hadfer.

**12.2** Roedd rheiliau ar gopa waliau terfyn a gatiau ar un adeg yn nodweddion cyffredin, ond ychydig sydd bellach ar ôl. Fodd bynnag, ceir digonedd o rheiliau sy'n nodwedd ar falconi neu falconi bychan. Ceir hefyd enghreifftiau diddorol o rheiliau a gatiau mwy diweddar, er enghraifft rheiliau a gatiau ar steil 'art-deco' llafnau'r haul (sunburst). Dylid cadw'r rhain. Wrth atgyweirio ac adfer rheiliau a gatiau mae'n well defnyddio darnau a phroffiliau sy'n adlewyrchiad o'r traddodiad Fictoraidd neu Edwardaidd. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i osod darnau newydd o reiliau modern o ansawdd da.

**12.3** Os yw perthi newydd yn y cynlluniau tirlunio arfaethedig sy'n rhan o'r cais cynllunio, mae'n bwysig gosod planhigion sydd yn cydweddu â chymeriad yr ardal gadwraeth. Gall Swyddogion Cadw Coed y Cyngor roi cyngor ar rywogaeth addas o lwyni.

## 13. Waliau Terfyn yn y Cefn

**13.1** Os oes angen caniatâd cynllunio, ni roddir caniatâd fel arfer i chwalu'r waliau'n llwyr neu'n rhannol gan leoli agoriad llydan mewn waliau terfyn cefn.

**13.2** Dylai waliau newydd i ddisodli waliau modern anaddas neu ffiniau agored geisio adlewyrchu'r deunyddiau, clymiad, morter a'r pwyntio oedd yn y waliau gwreiddiol neu ddefnyddio deunyddiau eraill o ansawdd da.

## 14. Estyniadau a Datblygiadau Newydd

**14.1** P'un ai os mabwysiadir arddull o gynllun traddodiadol neu gyfoes, bydd llwyddiant datblygiadau newydd ac estyniadau mewn ardal gadwraeth yn dibynnu ar ddealltwriaeth o nodweddion arbennig yr ardal. Bydd disgwyl i estyniadau ar adeiladau presennol a datblygiadau newydd yn Ardal Gadwraeth Conway Road ddiogelu neu wella cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth drwy barchu cyd-destun hanesyddol yr ardal drwy:

- Gadw'r rhythmau fertigol a llorweddol sydd i ffurf yr adeiladwaith.
- Cadw golygfeydd o fewn ac i gyfeiriad yr ardal gadwraeth.
- Parchu'r defnydd presennol a wneir o'r tir.
- Atgyfnerthu'r hierarchaeth sy'n bodoli yn yr ardaloedd gofod cyhoeddus a phreifat.
- Defnyddio deunyddiau a manylion pensaernïol sydd cystal eu hansawdd â'r hyn ddefnyddiwyd yn yr adeiladau gwreiddiol.
- Parchu maint plotiau sefydledig a chynlluniau gerddi yn yr Ardal Gadwraeth.

Rhaid hefyd rhoi ystyriaeth i faterion cynllunio ehangach. Er enghraifft rhaid rhoi sylw i ddatblygiadau sy'n effeithio ar amwynderau cymdogion, yn arbennig y niwed a ellir ei achosi gan adeiladau sy'n tarfu ar breifatrwydd neu sy'n achosi colli'r golau.

## 15. Rheoli Gwastraff a Sbwriel

**15.1** Mae hi'n bwysig bod cynigion datblygu sy'n ymwneud â rheoli gwastraff yn parchu'r amgylchedd adeiledig hanesyddol. Gallai fod caniatâd cynllunio ar gyfer storfeydd mawr i finiau a dylid eu lleoli yn ofalus, yn weledol ac er mwyn peidio tarfu ar gymdogion. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Canllawiau Cynllunio Atodol 'Casglu Gwastraff a Chyfleusterau Storio'.

# Cyngor am Goed a Thirlunio

Mae ardaloedd, ymylon gwyrdd a gerddi preifat i gyd yn cyfrannu tuag at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth ac y mae gan yr Awdurdod Cynllunio bwerau arbennig o fewn yr Ardal Gadwraeth i gynorthwyo i'w diogelu. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at faterion tirlunio gan gynnwys coed, parcio, gerddi, perthi, ffensys a gatiau o fewn yr Ardal Gadwraeth.

## Coed

Mae cadwraeth arbennig ar goed mewn Ardal Gadwraeth. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i wneud gwaith ar goed sydd â diamedr dros 7.5 centimedr (tua 3 modfedd), wedi ei fesur 1.5 metr (tua 5 troedfedd) uwch y ddaear. Yn benodol, rhaid i chi roi o leiaf 6 wythnos o rybudd o'ch bwriad i gyflawni'r gwaith i'r Awdurdod Cynllunio. Bydd yr Awdurdod yn cytuno i waith fydd yn lles i'r coed a gall gytuno i waith arall ddigwydd os yw'r manteision yn bwysicach na difrodi'r coed. Os na fydd yr Awdurdod yn ymateb o fewn 6 wythnos gellir cwblhau'r gwaith beth bynnag. Mae'r cosbau y gall llys ei osod am beidio rhoi rhybudd yn gallu bod yn ddifrifol.

Nid symud neu ladd coeden yw'r unig waith a olygir, ond hefyd ei thocio neu ddifrodi'r gwraidd neu ganghennau, yn uniongyrchol neu anuniongyrchol. Rhaid felly gwneud cais, er enghraifft, os ydych am newid lefelau pridd yn ymyl coed, neu osod arwynebedd anhydraidd, fel dreif newydd. Byddai hefyd yn drosedd i achosi difrod i goeden drwy lygru'r amgylchedd o'i chwmpas, er enghraifft drwy roi chwynladdwr ar lawnt gyfagos. Mae nifer o eithriadau i'r angen am ganiatâd, yn arbennig ar gyfer coed sydd yn farw, ar farw neu'n beryglus. Fe'ch cynghorir, ac eithrio mewn achosion o wir berygl, i ffonio Swyddog Cadw Coed cyn gweithredu ar unrhyw un o'r eithriadau hyn. Fel arfer, bydd rhaid ailblannu coed newydd yn lle'r coed sydd wedi eu codi'n anghyfreithlon. Os yw'r gwaith rydych am ei wneud yn ddatblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio. Ni fydd rhaid i chi wedyn wneud cais ar wahân – bydd yr holl faterion yn cael eu hystyried ar yr un pryd.

Os oes gennych goeden fawr neu amlwg, rydym yn eich cymell yn gryf, o bryd i'w gilydd, i ofyn am gyngor meddyg coed ar sut i'w gwarchod yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw dyladwy i farn meddyg coed wrth ystyried ceisiadau. Caiff coed ar y priffyrdd neu goed ym mharciau a meysydd rheoledig y Cyngor, eu gofalu amdanynt gan Wasanaethau Parciau'r Cyngor, ac maen nhw dan reolaeth tymor hir a oruchwylir gan arbenigwr coed cymwysedig.

Mae gerddi ffrynt o lawntydd neu erddi wedi eu plannu sydd wedi ei hamgylchynu gan lwyni neu relins yn rhoi cymeriad arbennig i Ardal Gadwraeth.

Ceir rhagor o wybodaeth a chyfarwyddyd am ardaloedd cadwraeth ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk neu drwy gysylltu â Thîm Cadwraeth y Cyngor ar (029) 2087 3485/3477.

**Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:**

**Cynllunio Strategol**
**Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd**
**Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,**
**Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,**
**Caerdydd. CF10 4UW.**
**Ffôn: (029) 2087 3477/3485**